



Ysgol Dyffryn Taf Prospectws 2019-20





Dyffryn Taf School

North Road, Whitland, Carmarthenshire, SA34 0BD
Tel: 01994 242100 Fax: 01994 240929

Website: www.dyffryntaf.org.uk
e-mail address: office@dyffryntaf.org.uk

Neges gan y Prifathro

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Prosbectws Ysgol Dyffryn Taf.

Mae Dyffryn Taf yn Ysgol Gyfun gymysg 11-18 lwyddiannus. Rydym yn falch iawn o hanes yr ysgol a gwerthoedd y mae Dyffryn Taf wedi eu hyrwyddo am flynyddoedd lawer. Rydym yn credu mewn gwaith caled a safonau uchel. Rydym yn disgwyl bod disgyblion yn dangos ymddygiad da a pharch dros eu hunain, eu cyd-ddisgyblion a staff. Ein nôd yw bod Dyffryn Taf yn gymuned cytûn sydd yn amrywiol a goddefgar, tra yn unedig trwy rannu'r un ethos.

Y mae dysgu ac addysgu o safon uchel yn bwysig iawn i'r ysgol. Rydym yn cyfuno traddodiadau gorau yr ysgol ynghyd â systemau newydd dysgu a'r cwricwlwm i ddatblygu sgiliau, ystwythder a hyblygrwydd fydd angen ar y disgyblion i lwyddo yn y byd modern.

Tra ein bod yn dysgu rhan fwyaf drwy'r Saesneg, rydym yn falch iawn i glodfori yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig. Mae hyn yn cynnwys dosbarth ym mhob blwyddyn yn yr ysgol iau sydd yn derbyn addysg Gymraeg.

Pwysleisw'n y pwysigrwydd bod pob plentyn yn cyrraedd eu gwir botensial ond hefyd i wella eu disgwyliadau o beth allai eu gwir botensial fod. Byddwn yn cefnogi eich plentyn i wneud hyn ac yn anelu i weithio mewn partneriaeth â chi fel rhieni a gofaluwr. Rydym yn gwerthfawrogi cyfleoedd ffurfiol i siarad, megis noson rieni a chyfarfodydd mwy anffurfiol. Y mae Dyffryn Taf yn ysgol lle y bydd aelodau staff ar gael i'ch cynorthwyo er budd eich plentyn.

Ynghyd â'n hymrwymiad i ddatblygu safonau, pwysleisw'n bwysigrwydd nodweddion personol yn ogystal ag ennill cymwysterau. Mae llawer o gyfleoedd i ddefnyddio ac i ddatblygu talentau eraill. Mae'r ystod eang o glybiau, gweithgareddau a theithiau lleol a thramor, yn ychwanegiadau amrywiol a drudfawr i'r cwricwlwm ffurfiol. Ein nod, pa ble bynnag fydd eu talent, fydd i feithrin eu talent, gan roi platform i gynrychioli'r ysgol ac i ddatblygu fel person.

Fel ysgol, rydym eisiau sicrhau ein bod yn darparu'r sgiliau angenrheidiol i'r disgyblion sydd yn cwrdd ag anghenion yr economi ac i sicrhau eu bod yn medru ffyni mewn amgylchedd cystadleuol. I gydnabod ein hymdrechion i gyrraedd y nôd yma, rydym wedi derbyn statws swyddogol Ystafell Ddosbarth Confucius gan Hanban a Sefydliad Confucius, sy'n ein galluogi i ddarparu cyfleoedd pellach i'r disgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth o'r iaith a'r diwylliant Tsieniaidd. Yn ogystal, rydym yn drwyddiedig gyda Gwobr Ysgolion Rhyngwladol mewn cydnabyddiaeth o'n datblygiadau o fewn dinasyddiaeth byd-eang.

Mae gennym ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl. Rydym eisiau i bawb rannu ein uchelgeisiau er mwyn cyrraedd y nod.

Mr J G Kennedy, BA Hons, NPQH

PRIFATHRO



Dyffryn Taf

Ysgol Gyfun gymysg 11-18 yw Dyffryn Taf, wedi'i lleoli yn nhref wledig Hendy-gwyn ar Daf, tua hanner ffordd rhwng Hwlfordd a Chaerfyrddin, ac wedi'i chynnal gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Agorwyd yr Ysgol fel Ysgol Gyfun ym 1989, gyda llawer o adeiladau newydd, ac mae llawer o adnewyddu wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae yna 877 o ddisgyblion, gyda 127 yn y Chweched Dosbarth.

Rydym am i Dyffryn Taf fod yn ysgol sy'n ennyn edmygedd a pharch y Gymuned a hyderwn y bydd rhieni yn ein cefnogi wrth inni ymdrechu i gyrraedd y nod hwn.

Tymhorau a Gwyliau Ysgol 2019 – 2020

Tymor yr Hydref (2019)

Dydd Mawrth, 3^{ydd} Medi – Dydd Gwener, 20^{fed} Rhagfyr

Gwyliau Hanner Tymor

Dydd Llun, 28^{ain} Hydref – Dydd Gwener, 1^{af} Tachwedd

Tymor y Gwanwyn (2020)

Dydd Gwener, 6^{ed} Ionawr – Dydd Gwener, 3^{ydd} Ebrill

Gwyliau Hanner Tymor

Dydd Llun, 17^{eg} Chwefror – Dydd Gwener, 21^{ain} Chwefror

Tymor yr Haf (2020)

Dydd Mawrth, 21^{ain} Ebrill – Dydd Llun, 20^{fed} Gorffennaf

Gwyliau Hanner Tymor

Dydd Llun, 25^{ain} Mai – Dydd Gwener, 29^{ain} Mai


Nodau'r Ysgol

Nod yr Ysgol yw ymestyn pob disgybl i'w lawn botensial, yn ddeallusol, yn academiaidd, yn ysbrydol, yn gorfforol ac yn gymdeithasol. Dyma'r ystyriaeth ganolog a'r cymhelliad sydd wrth wraidd pob un o bolisiau'r ysgol. Ymfalchiwn yn y modd yr ydym yn creu awyrgylch ac ethos gofalgar, ble mae pob disgybl yn cael ei barchu. Ceisiwn roi dealltwriaeth i ddisgyblion o dreftadaeth a diwylliant Cymru a'u paratoi ar gyfer bywyd mewn cymuned ddwyieithog. Rydyn ni'n mynnu safonau a disgwyliadau uchel ym mhob peth y bydd staff a disgyblion yn ei wneud.

Y Diwrnod Ysgol

Cofrestru	8.45 – 8.50
Gwasanaeth	8.50 – 9.10
Gwers 1	9.10 – 10.10
Egwyl	10.10 – 10.25
Gwers 2	10.25 – 11.25
Gwers 3	11.25 – 12.25
Cinio	12.25 – 1.25
Gwers 4	1.25 – 2.25
Gwers 5	2.25 – 3.25

Mae rhestr o Lywodraethwyr a rhestr o Staff ar gael ar Wefan yr Ysgol.



▲ **Ysgolion Cynradd Swyddogol**

Beca, Bro Brynach, Brynconin, Griffith Jones, Hafodwenog, Talacharn, Llanmilo, Llys Hywel, Maenclochog, Meidrim, Arberth, Tafarnspeit, Tredeml, Tremoilet.

▲ **Ysgolion Cynradd Eraill (dewis rhieni)**

Abernant, St. Aidan's, St. Oswalds, Saundersfoot, Stepside, Dinbych y Pysgod, Ysgol Clydau, Ysgol y Frenni

Pontio

Mae gan Dyffryn Taf bolisi mynediad agored i unrhyw ddisgybl 11+ oed sy'n byw o fewn dalgylch yr Ysgol. Mae'r dalgylch yn eang (dros 400 milltir sgwâr) ac yn amrywiol o ran cymeriad. Mae cymaint â 19 o ysgolion cynradd yn ein bwydo, rhai yn anfon nifer fawr o ddisgyblion, eraill, oherwydd eu maint, yn anfon dim ond un neu ddau. Un o'n tasgau yw darparu ar gyfer ystod eang o ddewisiadau ieithyddol. Ym mis Medi 2018, derbyniwyd 146 o ddisgyblion, gydag un o'r chwe dosbarth wedi'i ddynodi yn ddosbarth cyfrwng Cymraeg. Os byddwch yn dod i fyw i'r ardal, ac os ydych yn bwriadu i'ch plentyn fynychu'r Ysgol, dylech drefnu apwyntiad i weld y Pennaeth Ysgol perthnasol.

Yn Dyffryn Taf rydym yn hyrwyddo cysylltiadau agos â'r Ysgolion Cynradd sy'n ein bwydo ac yn ceisio creu teimlad o 'berthyn' o'r dechrau'n deg gan drefnu ystod o weithgareddau trwy gydol y flwyddyn ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6.

Hydref	Noson Agored
Tachwedd	Dyddiau Sialens Techoleg Blwyddyn 6
Rhagfyr	Cynhyrchiad Blynyddol yr Ysgol

Mehefin	Noson i Rieni Disgyblion Newydd
Mehefin/ Gorffennaf	Sesiynau Llyfrgell ar gyfer Gweithgareddau Llythrennedd
Gorffennaf	Dyddiau Disgyblion Newydd Blwyddyn 6
Gorffennaf	Barbeciw i Ddisgyblion a Rhieni Blwyddyn 6
Gorffennaf	Ymweliad Disgyblion Blwyddyn 5 â'r Ysgol

Cludiant

Darperir cludiant am ddim i bob disgybl o fewn y dalgylch. Dylai rhieni gysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin neu â Chyngor Sir Penfro fel sy'n briodol. Yn ystod tywydd garw derbynnir cyngor gan y Cwmnïau Bysiau sy'n gyfrifol am gludo disgyblion yn ddiogel. Darlledir trefniadau manwl ar y gorsafoedd radio lleol – Radio Sir Benfro 102.5FM neu Radio Sir Gâr 97.1FM. Bydd gwybodaeth hefyd ar gael ar www.carmarthenshire.gov.uk ac ar Wefan yr Ysgol. Yn ychwanegol, danfonir neges destun 'Groupcall' i rieni. Y nod o hyd bydd ail agor yr Ysgol mor fuan ag sy'n bosibl.

Gofal Bugeiliol

Pan fyddant yn dechrau mynychu'r ysgol bydd disgyblion yn cael eu gosod mewn grŵp tiwtor gallu cymysg dan ofal Tiwtor Dosbarth. Un o amcanion clir yr ysgol yw darparu awyrgylch gynnes a gofalgarg. Bydd Tiwtoriaid Dosbarth yn datblygu cysylltiadau agos â'u disgyblion, ac yn eu tro yn cysylltu â Phenaeithaid Bugeiliol. Mae Rhaglen Sefydlu ar gael fel paratoad ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 ac mae System Fentora yn ei lle fel bo disgyblion yn derbyn cefnogaeth gan eu cyfoedion. Mae'r Ysgol hefyd yn gweithredu Cynllun Tai a Chynllun Marciau Teilyngdod, sydd wedi hen ennill ei blwyf yn yr Ysgol, i wobrwyo cyflawniad disgyblion.

Mae Gwasanaeth Cwnsela yn yr Ysgol sy'n cyd-fynd â gwaith y staff bugeiliol. Mae hwn yn cynnig cymorth personol ychwanegol i fyfyrwyr a fyddai'n elwa o'r cyfle i gydweithio â Chwnselydd proffesiynol.

Y Prifathro sydd bennaf gyfrifol am Blant sy'n Derby Gofal.

Gwybodaeth Feddygol

Os bydd angen i ddisgyblion gymryd meddyginiaeth yn yr ysgol, yna rhaid i rieni lenwi'r ffurflen "Cais i Roi

Meddyginiaeth yn yr Ysgol'. Ystyrir pob cais yn unigol. Cyn belled ag sy'n bosibl, dylai rhieni wneud pob ymdrech i drefnu apwyntiadau meddygol y tu allan i oriau'r ysgol.

Dylai rieni drefnu apwyntiadau meddygol y tu allan i oriau'r ysgol.

Cyfle Cyfartal

Mae'r Ysgol yn gweithredu Polisi Cyfle Cyfartal sy'n cynnig cyfle cyfartal i bawb beth bynnag fo'u rhyw, cenedligrwydd, lliw, iaith, gallu, crefydd neu anabled. Mae hyn yn cynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu arbennig, yn amrywio o lefelau academaidd isel i uchel, anabled corfforol, anghenion seicolegol, cefndiroedd cymdeithasol, anawsterau dysgu penodol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ni chafodd yr Ysgol ei hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer myfyrwyr sydd ag anabledau corfforol ond mae gwaith sylweddol eisoes wedi'i gwblhau i addasu amgylchedd yr Ysgol trwy ddarparu lifftiau a rampiau a thrwy addasu'r toiledau i wella mynediad. Mae copïau o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, y Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Polisi Mynediad ar gael trwy gysylltu â'r Ysgol.



Ethos a Gwerthoedd yr Ysgol

Ein nod yw cyflawni potensial llawn pob disgybl mewn amgylchedd cefnogol a gofalgarg. Mae'r ysgol yn sicrhau pwysigrwydd a gwerth cyfartal i bob disgybl. Anogir disgyblion i ddatblygu ymddiriedaeth a dealltwriaeth ac i ddatblygu ymwybyddiaeth foesol o'u cyfrifoldebau.

Mae ethos yr ysgol, sydd wedi'i drwytho â dwyieithrwydd, yn manteisio i'r eithaf ar iaith a diwylliant Cymru a thraddodiadau cefn gwlad Sir Gaerfyrddin. Dyma ddiwylliant sy'n cael effaith sylweddol ar bob disgybl sy'n mynychu'r ysgol ac sy'n creu ymdeimlad o falchder ac o berthyn ym mhob un ohonom.

Cytundeb Cartref-Ysgol

Mae'r Ysgol am i rieni fod yn ymwybodol o'n Cytundeb Cartref-Ysgol sy'n diffinio cyfrifoldebau'r myfyrwyr, y rhieni a'r ysgol. Mae hwn ar gael yn y Llyfr Cyswllt. Mae'r adran 'Rheolau Teg' ar ddechrau'r Llyfr Cyswllt yn nodi'r hyn a ddisgwyllir gan y disgyblion ac yn tynnu sylw at gyfrifoldeb rhieni. Dyma gyfle i rieni chwarae rhan weithredol yn addysg eu plant.

Cyfathrebu â Rhieni

Anogir rhieni i gysylltu â'r Ysgol ynglŷn ag unrhyw fater sy'n ymwneud â chynnydd eu plentyn.

Mae Calendr Digwyddiadau'r Ysgol ar gael ar Wefan yr Ysgol.

Noson Agored flynyddol pan wahoddir rhieni a phlant i fwrw golwg ar waith yr Adrannau – Hydref

Noson Llwybrau Dysgu Blwyddyn 11/12 – Tachwedd
Noson Llwybrau Dysgu Blwyddyn 9/10 – Ionawr

Noson Rieni ar gyfer pob Grŵp Blwyddyn:
Blwyddyn 11 – Hydref: Blwyddyn 12 – Tachwedd
Blwyddyn 13 – Tachwedd: Blwyddyn 9 – Ionawr
Blwyddyn 7 – Chwefror: Blwyddyn 10 – Chwefror
Blwyddyn 8 – Mawrth

Mae gwefan yr Ysgol (www.dyffryntaf.org.uk) yn hyrwyddo'r ysgol y tu hwnt i'r gymuned leol.

Presenoldeb

Ystyrir bod presenoldeb rheolaidd yn bwysig iawn yn Dyffryn Taf. Hebdo, ofer bydd ein holl ymdrechion i ddarparu addysg o safon uchel; os nad yw plentyn yn bresennol yn yr ysgol, ni all ddysgu na chyrraedd ei wir botensial.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob plentyn fynychu'r ysgol o leiaf 95% o'r amser. Ers mis Medi 2013, ni fydd yr ysgol mwyach yn gallu awdurdodi absenoldeb plentyn o'r ysgol ar gyfer gwyliau teuluol neu apwyntiad cyffredin.

Bydd rhesymau cyfiawn a dilys ar adegau, wrth gwrs, pam na all plant fynychu'r ysgol, ond mae gennym systemau yn eu lle i fonitro ac ymchwilio i absenoldebau ar draws yr ysgol. Dylai rhieni drefnu apwyntiadau meddygol cyffredin tu allan i oriau ysgol os yn bosibl.

Ni chaniateir i ddisgyblion adael safle'r ysgol ar unrhyw adeg yn ystod y dydd heb nodyn dyddiedig oddi wrth y rhieni yn nodi'r rhesymau, a chymeradwyaeth Uwch Aelod o staff. Dylai rhieni ffonio'r ysgol ar 01994 242100, Opsiwn 1, i gofrestru absenoldeb disgyblion, erbyn 9.00yb ar ddiwrnod yr absenoldeb. Pan fydd y disgybl yn dychwelyd i'r ysgol, dylai'r rhiant ysgrifennu nodyn o eglurhad yn y Llyfr Cyswllt. Hyd nes bo'r ysgol yn derbyn nodyn oddi wrth y rhieni/gwarcheidwaid, bydd absenoldeb y plentyn yn parhau yn absenoldeb heb awdurdod.



Cwricwlwm

Mae ystod eang o strategaethau yn gymorth i ddisgyblion ddatblygu yn ddysgwyr annibynnol a myfyriol. Ein nod yw darparu cwricwlwm eang, cytbwys, perthnasol a heriol er mwyn paratoi disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn, gyda chyfleoedd i bob un brofi llwyddiant. Mae ein cwricwlwm yn canolbwyntio ar anghenion pob unigolyn. Dysgir y rhan fwyaf o wersi mewn dosbarthiadau gallu cymysg ond pan fo modd ateb anghenion unigol yn well trwy setio disgyblion mewn rhai pynciau, yna defnyddir y dull hwnnw.

Cyfnod Allweddol 3

Mae pob disgybl yn dilyn cwricwlwm eang yn ôl gofynion cenedlaethol, a phynciau'n cael eu cyflwyno trwy ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar sgiliau. Mae'r disgyblion yn astudio'r pynciau craidd, sef Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth a Chymraeg, a'r pynciau sylfaenol canlynol:- Celf, Dylunio a Thechnoleg, Drama, Ffrangeg, Daearyddiaeth, Hanes, Technoleg Gwybodaeth, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Mae disgyblion y dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg yn astudio Cymraeg Iaith Gyntaf, Astudiaethau Crefyddol, Daearyddiaeth, Hanes ac ABCCh trwy gyfrwng y Gymraeg. Saesneg fydd cyfrwng addysgu'r pynciau eraill er y gwneir defnydd anffurfiol o'r Gymraeg pan fo hynny'n bosibl.

Cyfnod Allweddol 4

Mae disgyblion yn astudio'r pynciau craidd, sef Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg a Bagloriaeth Cymru. Wedi ymgynghori â'u rhieni a staff, bydd disgyblion yn ychwanegu tri phwnc arall allan o'r pynciau sylfaenol a astudiwyd yng Nghyfnod Allweddol 3, gan gynnwys rhai pynciau galwedigaethol megis BTEC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Lletygarwch, a Chwaraeon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn astudio ar gyfer Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd, BTEC Lefel 1 neu 2 neu'r Dystysgrif Lefel Mynediad. Rydyn ni'n darparu cysylltiadau gyda Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn Llyfryn Llwybr Dysgu Blynnyddoedd 10/11.

Bydd disgyblion yn derbyn Tystysgrifau Arholiadau Allanol mewn Noson Wobrwyo arbennig yn Nhyrnor y Gwanwyn. Bydd disgyblion sy'n methu â bod yn bresennol yn gallu casglu eu tystysgrifau o'r Ysgol wedi'r dyddiad hwn.

Cyfnod Allweddol 5

Mae Dyffryn Taf yn cynnig cwricwlwm amrywiol a heriol i fyfyrwyr i barhau i ddysgu a datblygu fel pobl ifanc. Mae cymuned gefnogol yr ysgol yn darparu dilyniant ardderchog i fyfyrwyr Blwyddyn 11 a chyfleoedd newydd i fyfyrwyr o sefydliadau dysgu eraill. Nod yr ysgol yw datblygu pob dysgwr wrth iddynt symud o'u llwybr dysgu 14-16 i mewn i lwybr dysgu 16-19 unigoleddig.

Gall myfyrwyr benderfynu ar ddewis eang o bynciau sy'n cael eu cynnig i Lefel A a BTEC, gyda'r cyfuniad o ddilyn Bagloriaeth Cymru Uwch. Mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus wrth baratoi myfyrwyr ar gyfer addysg uwch a chyflogaeth.

Mae'r Ysgol yn gweithredu polisi mynediad agored i'r Chweched Dosbarth ond mae graddau penodol yn ofynnol ar gyfer rhai cyrsiau. I ddechrau ar gyrsiau lefel 3 mae'n ofynnol cael o leiaf pedwar gradd C, gan gynnwys graddau C neu well mewn TGAU Saesneg a Mathemateg.

Mae rhagor o wybodaeth am gyrsiau llwybrau dysgu a sut i wneud cais ar gael ar wefan yr ysgol.



Polisi Gwaith Cartref

Gosodir gwaith cartref i ddisgyblion yn rheolaidd, yn ôl polisi'r ysgol a pholisiau adrannau unigol. Bydd pob disgybl yn derbyn llyfr cyswllt ac ynddo dylent gofnodi manylion ynglŷn â phob gwaith cartref a osodir. Mae hwn yn offeryn pwysig o ran cynnal cyswllt rhwng y cartref a'r Ysgol ac mae'n rhoi cyfle parhaus ar gyfer deialog a monitro cynnydd. Gofynnir i rieni lofnodi'r llyfr cyswllt unwaith yr wythnos. Bydd y Tiwtor Dosbarth yn gwirio'r Llyfr Cyswllt yn rheolaidd.

Polisi Codi Tâl


Ni chodir tâl am ddarparu'r cwricwlwm sylfaenol. Serch hynny, gellir gofyn am daliadau gwirfoddol am ymweliadau nad ydynt yn rhan o'r cwricwlwm, pris unrhyw wrthrychau a wneir yn yr Ysgol ond y bydd y disgyblion yn mynd â hwy adref i'w defnyddio neu i'w bwyta, a rhai gweithgareddau all-gyrsiol. Yn y pen draw, y gefnogaeth a geir drwy gyfraniadau rhieni fydd yn penderfynu a yw gweithgaredd yn ymarferol bosibl. Rhaid i ddisgyblion dalu am unrhyw ddifrod a achosir yn fwriadol neu drwy esgeulustod i eiddo'r ysgol, ac am unrhyw arholiadau y byddant yn eu hail-sefyll.

Addysg Gyrfaoedd

Mae disgyblion yn derbyn gwarsi Gyrfaoedd a gweithgareddau yn ymwneud â Byd Gwaith o Flwyddyn 8 – 13. Mae'r rhain yn cynnwys gwarsi ABCh, Diwrnodau Gyrfaoedd, Let's Go to Work a Dosbarthiadau Meistr, pan fo'r cwricwlwm traddodiadol yn cael ei atal. Mae disgyblion Blwyddyn 10 – 13 yn cael y cyfle i dderbyn cyngor annibynnol gan y Swyddog Gyrfaoedd a pharatoi Cynllun Gweithredu Gyrfaoel. Bydd y ddogfen hon yn nodi diddordebau, sgiliau a photensial ac yn nodi a blaenoriaethu dewisiadau gyrfaoel a sut i'w cyflawni. Yn olaf bydd y disgyblion yn derbyn cymorth i ddarganfod a chadw lle priodol mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae gan ddisgyblion Dyffryn Taf hawl i gael mynediad i wybodaeth gynhwysfawr, gywir a diweddar ynglŷn â:

- Galwedigaethau, gan gynnwys eu gofynion o ran addysg a hyfforddiant.
- Y farchnad lafur ar lefel leol, cenedlaethol a rhyngwladol.
- Cyfleoedd addysg, hyfforddi a chyflogaeth ar lefel leol, cenedlaethol a rhyngwladol.
- Dulliau o chwilio am waith.
- Bod yn hunan gyflogedig.
- Ffynonellau ariannu ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.



Anghenion Dysgu Ychwanegol

Nodir Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) trwy gydweithio'n agos gydag Ysgolion Cynradd, a thrwy gynnal profion CAT a phroffion safonol er mwyn creu llun o anghenion arbennig bob plentyn. Cynigir ymyrraeth yn y boreau a thrwy amserlen i ddisgyblion sydd yn cyrraedd y meini prawf anghenion ychwanegol a hyfforddiant llythrennedd, rhifydddeg a sgiliau cymdeithasol. Mae ein rhaglen llythrennedd yn cynnwys Read-write inc, darllen a deall yn y bore a gwell llawysgrifen; ymyrraeth rhifydddeg yw 'Cool Maths' ac adeiladu sgiliau cymdeithasol drwy ddefnyddio 'Talkabout', 'Teen Talk', therapy Lego a chefnogaeth bositif.

Hefyd rydym yn cynnig llythrennedd corfforol i ddisgyblion sydd angen datblygiad ychwanegol gyda'i cyd-symud. Mae athroniaeth yr ysgol i ddysgu disgyblion gallu cymysg trwy ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys iddynt. Mae'r ALNCo yn gyfrifol am fonitro, cynllunio a chydlynu anghenion unigol pob disgybl trwy greu Cynlluniau Datblygiad Unigol, cysylltu â rhieni a monitor datblygiad disgyblion ADY. Gall rhieni gael copi o Bolisi Anghenion Ychwanegol yr ysgol trwy gysylltu â'r ysgol.

Trefniadau ar gyfer Achwyn

Mae Trefn Achwyn yr ysgol yn golygu bod modd ymdrin â phob cŵyn gan rieni mewn modd effeithlon a sensitif. Lle bo rhieni'n anfodlon â phenderfyniad y Prifathro ynglŷn â'r gŵyn, gallant gysylltu â'r Corff Llywodraethol. Dylent ysgrifennu at y Clerc i ddechrau, gan nodi'r gŵyn a darparu unrhyw ddogfennau ategol. Os bydd y materion yn dal heb eu datrys, mae gan rieni yr hawl i'w reportio i Adran Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae dogfennau ar gael ar gais sy'n nodi trefniadaeth sy'n cynnig camau ffurfiol i'w dilyn ar gyfer delio â chwynion swyddogol.

Addysg Rhyw

Mae'r Rhaglen Addysg Rhyw yn rhan annatod o'r rhaglen ABCh/lechydd ar gyfer pob disgybl. Mae'r rhaglen yn annog disgyblion i archwilio gwerthoedd a materion moesol, rhywioldeb a pherthnasoedd personol trwy ddatblygu sgiliau cyfathrebu a gwneud penderfyniadau, ac yn mynd i'r afael â phwysau'r gymdeithas, cyfoedion a'r cyfryngau. Darperir addysg rhyw yn y cwricwlwm sylfaenol ar gyfer pob disgybl lle mae disgyblion yn cael eu hannog a'u harwain gan egwyddorion moesol ac yn cael eu haddysgu i adnabod gwerth bywyd teuluol. Mae staff Awdurdod lechydd Sir Caerfyrddin ac asiantaethau allanol eraill yn

cynorthwyo gyda'r Rhaglen Addysg Rhyw. Yn unol â'r gyfraith, mae agweddau biolegol atgenhedlu dynol yn dal i fod yn orfodol ar gyfer pob disgybl ond mae gan rieni hawl i eithrio eu plant o unrhyw ran arall o'r Rhaglen Addysg Rhyw. Dylai unrhyw un sydd am wneud hynny anfon cais ysgrifenedig at y Prifathro. Mae datganiad llawn o Bolisi Addysg Rhyw yr Ysgol ar gael i rieni. Mae'r deunyddiau addysgu a ddefnyddir yn briodol ar gyfer anghenion ac oedran y disgyblion dan sylw.

Addysg Grefyddol

Mae Addysg Grefyddol ar gael i bob disgybl. Disgwylir i bob disgybl gymryd rhan mewn cydaddoli dyddiol. Mae rhaglen cydaddoli dyddiol yr ysgol yn cynnwys rhai gwasanaethau 'ysgol-gyfan', gwasanaethau tai a gwasanaethau grwpiau tiwtor ac mae wedi'i seilio ar themâu crefyddol neu themâu sydd â phwyslais moesol neu ysbrydol iddynt. Pan nad yw disgyblion yn mynychu Gwasanaeth, cynhelir gweithred o addoli, sydd gan amlaf yn Gristnogol ei natur, yn yr ystafelloedd dosbarth. Dylai rhieni sydd am arfer eu hawl i eithrio eu plant o Addysg Grefyddol neu o'r gwasanaethau gysylltu â'r Prifathro.

Defnydd o'r Iaith Gymraeg

Mae'r ysgol yn ysgol naturiol ddwyieithog gyda 10% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yn y cartref. Mae pob disgybl yn astudio Cymraeg hyd at 16 oed ar lefel sy'n briodol i allu a chefnidir ieithyddol pob unigolyn. Cyd-destun ieithyddol yr ysgol sy'n pennu iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y ddwy iaith i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda'r rhieni yn y naill iaith a'r llall neu yn Saesneg.

Mae un neu ddau o ddsbarthiadau, yn dibynnu ar rifau mynediad, yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau canlynol: Cymraeg Iaith Gyntaf, Astudiaethau Crefyddol, Daearyddiaeth, Hanes ac ABCh.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, bydd y dosbarthiadau hyn yn astudio Cymraeg Iaith Gyntaf. Mae'r ysgol hefyd yn gallu cynnig rhai dosbarthiadau TGAU drwy gyfrwng y Gymraeg pan fo'r rhifau yn gwneud hynny'n ddewis ymarferol.

Ni ellir datgymhwyso plentyn o'r gwersi Cymraeg ag eithrio ar gyngor yr ysgol ac ar argymhelliad Seicolegydd Addysg. Rhaid rhoi'r cynnig gerbron Panel Datganiadau ar lefel sirol, a'r panel hwnnw fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Chwaraeon

Mae'r Ysgol o blaid cymryd ymagwedd holistaidd tuag at weithgarwch corfforol a byw'n iach trwy ddysgu ffurfiol ac anffurfiol ynghyd â gweithgareddau allgyrsiol a chymunedol.

Ein nod yw:

- codi ymwybyddiaeth o fanteision ymarfer corff i iechyd;
- rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion fod yn egniol i'r graddau ei fod yn gwneud cyfraniad positif i'w iechyd;
- gwneud defnydd llawn o gapasiti a hyblygrwydd y cwricwlwm i greu dealltwriaeth o sut i fyw'n iach gydol oes trwy hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol nifer o feysydd rygbi a phêl-droed, cyrtiau tennis a phêl-rwyd, maes 'gra coch', Neuadd Chwaraeon, Ystafell Ffitrwydd ac mae'r gampfa wedi ei adnewyddu. Mae'r gampfa yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol ar gyfer disgyblion o bob gallu i ddatblygu sgiliau Llythrennedd a Rhifedd yn ogystal â'u sgiliau Corfforol. Mae'r dull a ddatblygwyd yn defnyddio technegau a mecaneg dylunio gêm i ddatrys problemau, ac i ysgogi a chymell y disgyblion i ddod yn gyfranogwyr gydol oes mewn gweithgaredd corfforol.

Cynhelir ystod eang o weithgareddau chwaraeon yn ystod y flwyddyn sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gynrychioli'r Ysgol mewn ystod o ddigwyddiadau chwaraeon. Mae timau ysgol o bob oed yn cystadlu yn rheolaidd yn erbyn ysgolion uwchradd eraill yn ystod ac ar ôl ysgol a cheir cyfle i ddisgyblion gynrychioli rhanbarth Caerfyrddin, Brianne, Sir Gaerfyrddin, Dyfed a Chymru mewn amryw weithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys:- Athletau: Pêl-fasged: Criced: Traws Gwlad: Dawns: Pêl-droed: Golff: Gymnasteg: Hoci: Pêl-rwyd: Rownderi: Rhwyfo: Rygbi a Thennis.

Mae cyfleoedd ar gael hefyd trwy gyfrwng Cynllun Dug Caeredin i gymryd rhan mewn Canwio, Gweithgareddau Awyr Agored, Cyfeiriannu, Cerdded ac ati.

Allgyrsiol

Rydym yn credu bod gweithgareddau allgyrsiol yn ychwanegu at ddatblygiad plentyn yn ei gyfanrwydd. Mae Dyffryn Taf yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n codi hunan-barch, ehangu profiad ac adeiladu hyder. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys:

- Caiacio
- Cerddorfa
- Chwaraeon
- Clwb Celf
- Clwb Clebran
- Clwb Sbri-di-ri
- Clwb Technoleg
- Corau
- Gweithgareddau 5 x 60
- Siarad Cyhoeddus
- Sioeau Ysgol
- Ymweliadau Ysgol
- Yr Urdd
- Pwyllgor Ecoleg



Asesiadau ac Arholiadau

Paratoir Arolwg Cynnydd ar gyfer disgyblion bob blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial. Bydd pob disgybl yn derbyn graddau neu lefelau targed ym mhob pwnc, a byddwn yn monitro eu cynnydd tuag at gyflawni'r targedau hyn.

- Dosberthir Adolygiadau Interim ar gyfer Blynnyddoedd 7, 8, 9 a 10 ar ddechrau Tymor y Gwanwyn ynghyd a sylw gan y Tiwtor Dosbarth.
- Dosberthir Adroddiadau Ffug Arholiadau Blwyddyn 11 yn dilyn y Ffug Arholiadau a chyn gwyliau Hanner Tymor y Gwanwyn.
- Dosberthir Adroddiadau Blwyddyn 10 adeg y Pasg.
- Dosberthir Adroddiadau Haf Blwyddyn 10 yn dilyn Arholiadau Blwyddyn 10 ac ar ôl gwyliau Hanner Tymor yr Haf.
- Dosberthir Adroddiadau Haf Blwyddyn 9 cyn Hanner Tymor yr Haf.
- Dosberthir Adroddiadau Haf Blwyddyn 7,8 a 9 ar ddiwedd Tymor yr Haf yn nodi Cyrhaeddiad, Ymdrech a Sylwadau Athrawon.

Disgyblaeth

Disgwylir i bob un ufuddhau i gyfres o reolau ysgol. Mae'r ysgol, fel cymuned, yn gweithredu ar sail nodau trefnus, teg ac eglur. Mae'r Polisi Ymddygiad yn ceisio creu côd ymddygiad clir wedi'i gefnogi gan gyfuniad cytbwys o wobrau a chosbau o fewn awyrgylch gymunedol bositif. Mae'r ysgol hefyd yn defnyddio 'Disgwyliaidau Ymyddygiad er mwyn dysgu' lle y mae pob disgybl yn ymwybodol o'r canlyniadau.

Mae gan bob disgybl yr **hawl** i symud o amgylch yr ysgol heb ofn a'r **cyfrifoldeb** o ofalu bod pob un arall yn gallu gwneud hynny hefyd. **Mae bwlio yn annerbyniol ac ni fydd yn cael ei ganiatáu.** Rhoddir ystyriaeth ddifrifol i bob cyhuddiad o fwlio a bydd y Pennaeth ysgol perthnasol yn cael ei hysbysu ar unwaith. Hyrwyddir polisi'r ysgol ynglŷn â gwrth-fwlio mewn gwasanaethau, cyfnodau tiwtorial, y rhaglen ABCCh ac mewn rhannau eraill o'r cwricwlwm fel bo hynny'n briodol. Bydd y Grŵp Addysg Cyfoedion yn rhoi cyflwyniadau ar sgiliau ymdopi a phendantrwydd i ddisgyblion Blwyddyn 7 ac 8 ar Ddiwrnodau Iechyd.

Pan fo angen gwneud hynny gellir cosbi disgyblion fel a ganlyn:

- Ataliad yn ystod yr egwyl neu amser cinio;
- Ataliad ar ôl ysgol (Hysbysir rhieni ymlaen llaw);
- 'Ar adroddiad' pan fo staff yn ysgrifennu sylw am y plentyn ar ddiwedd pob gwrs. Bydd y Pennaeth ysgol yn monitro'r datganiad hwn a bydd y rhieni yn ei lofnodi;
- cardiau adrodd amser cinio.

Mae'r ysgol yn glynu at reolau a rheoliadau'r Polisi Gwahardd a reolir gan Gyngor Sir Gaerfyrddin, fel y nodir gan Lywodraeth Cymru.

Cyngor yr Ysgol

Mae Cyngor yr Ysgol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob grŵp blwyddyn, yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion o safbwynt y disgyblion. Maent yn rheoli cyllideb a bennwyd ar gyfer gwahanol glybiau a chymdeithasau'r ysgol, yn trafod materion gyda'r Prifathro, yn mynychu fforymau ledled y sir ac yn mynegi eu barn i wleidyddion a wahoddir i'r ysgol.



Diogelu Plant

Mae Dyffryn Taf yn cydnabod yn llawn ei chyfraniad i Ddiogelu Plant a derbyniodd yr ysgol glod am ei pholisïau, ei chefnogaeth a'i hymyriadau mewn "Gwiriad Diogelu Iechyd" ar draws y sir.

Mae tair prif elfen i bolisï'r Ysgol:

- Cynigir cefnogaeth Addysgiadol a Bugeiliol i'r disgyblion i'w galluogi i'w diogelu eu hunain ac atal cam-drin.
- Mae trefniant ar gael er mwyn adnabod a reportio unrhyw achos o gam-drin, neu achos lle bo amheuaeth o gam-drin. Oherwydd ein cyswllt dyddiol â phlant, mae staff yr ysgol mewn lle da i sylwi ar arwyddion allanol cam-drin.
- Cefnogi disgyblion a all fod wedi cael eu cam-drin.

Fel rhan o'n polisïau ar Ddiogelu, mae pob oedolyn cyfrifol sy'n gysylltiedig â'r ysgol, a gyflogir yn uniongyrchol, yn anuniongyrchol neu mewn capasiti gwirfoddol, yn cael eu gwirio drwy drefn y Gwasanaeth Datguddiad ac Eithrio (DBS).

Mae system mynediad drws wedi cael ei rhoi ar waith fel rhan o weithdrefnau diogelu yr ysgol i gadw'r ysgol

yn gymuned ddiogel. Mae angen i ymwelwyr wneud eu ffordd i Brif Fynedfa'r Ysgol lle byddant yn gallu mynd i mewn i'r adeilad ar ôl siarad â'r Dderbynfa drwy'r Intercom.

Iechyd a Diogelwch

Mae'r Corff Llywodraethol wedi ymrwymo i sicrhau diogelwch a lles cyflogaion, disgyblion ac eraill a effeithir gan weithgareddau ar safle'r ysgol. Cynhelir arolygon rheolaidd o'r ysgol gan y Prifathro a Llywodraethwr sy'n gyfrifol am Iechyd a Diogelwch. Nodir unrhyw beryglon posibl a gweithredir yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod yr Ysgol yn amgylchedd diogel i'r plant weithio a chwarae ynddo.

O leiaf unwaith y tymor, cynhelir dril tân pan fydd y plant yn ymarfer gadael yr adeilad yn gyflym.

Er mwyn gwella diogelwch y safle, mae Dyffryn Taf yn gweithredu system teledu cylch cyfyng sy'n cynnwys nifer o gamerâu sefydlog wedi'u lleoli o amgylch safle'r Ysgol. Mae pob camera yn cael ei fonitro o Ystafell Reoli Ganolog ac ar gael i aelodau dethol o'r staff uwch yn unig.





Gwisg Ysgol

Mae gwisg ysgol yn orfodol ac yn cyfrannu tuag at ymddangosiad twt a thaclus. Mae hyn yn creu ymdeimlad o falchder a pherthyn ac yn hybu ymddygiad synhwyrol. Ni chaniateir siacedi na jîns denim dan unrhyw amgylchiadau. Rhaid gwisgo esgidiau cryfion i ddod i'r Ysgol ac i fynd adref ac yn ystod y dydd. Ni ddylid gwisgo 'trainers' ag eithrio yn y gwersi Addysg Gorfforol. Mae gemwaith yn gyfyngedig i bâr o glustdlysau sydd sy'n cyfateb a'i gilydd, un ym mhob clust, ac oriawr. Ni chaniateir unrhyw golur, na thyllu rhannau o'r corf neu'r wyneb. Ni chaniateir ffonau symudol yn yr ysgol. Os bydd myfyriwr yn cael ei dal yn defnyddion ffon symudol yn yr ysgol, cymerir y ffon oddi wrth y plenty, a bydd yn rhaid i riant ei gasglu o swyddfa'r ysgol ar ddiwedd y dydd. Ni chaniateir ffonau symudol yn yr Ysgol. Ni chaniateir steiliau gwallt na lliwiau gwallt ecentrig. Ni chaniateir i fechgyn dyfu barf na mwstas. Dylai gwallt hir gael ei glymu yn ôl ar gyfer gwersi ymarferol.

	Bechgyn	Merched
Crys/Blowsen	Crys glas golau, llewys hir, cotwm/polyester Crysau gwyn i'r Chweched Dosbarth	Blowsen las golau, llewys hir, cotwm/polyester Blowsen wen i'r Chweched Dosbarth
Tei	Tei ysgol clipiedig (o 2017)	Tei ysgol clipiedig (o 2017)
Trowsus/ Sgert	Trowsus llwyd tywyll teilwredig Du i'r chweched dosbarth	Sgert/trowsus llwyd tywyll teilwredig Du i'r chweched dosbarth (Dylai'r sgert fod o hyd rhesymol ac yn cyrraedd yn agos at y benglin) (ddim o ffabrig ymestyn)
Siwmpwr	Siwmpwr gwddf V nefi gyda bathodyn yr Ysgol Siwmpwr denau ddu gwddf V i'r Chweched Dosbarth	Siwmpwr gwddf V nefi gyda bathodyn yr Ysgol Siwmpwr denau ddu gwddf V i'r Chweched Dosbarth
Teits/Sanau	Sanau nefi/du	Teits Nefi/Sanau Nefi
Esgidiau	Esgyd lledr du plaen (ni chaniateir esgidiau ymarfer nac esgidiau cynfas	Esgyd lledr du plaen (ni chaniateir esgidiau ymarfer nac esgidiau cynfas e.e.

- Disgwylir i bob disgybl wisgo cot tywyll (plaen heb unrhyw fotiff). Rhaid i esgidiau fod yn ddu; ni ddylai'r sodlau fod yn uwch na 5 cm.
- Ni chaniateir crysau chwys a thopiau gyda hwd.
- Disgwylir i bob disgybl wisgo tei yr ysgol a gofalu amdano. Dylid ei wisgo yn y modd cywir.
- Mae siwmpwr ysgol (gyda bathodyn) yn orfodol.
- Yn ysod tymor yr haf, caniateir i ddisgyblion yr ysgol lau a'r ysgol ganol wisgo crysau polo nefi gyda bathodyn yr ysgol arnynt.

- Dylid rhoi enw'r perchennog yn glir ar bob dilledyn. Mae'r uchod ar gael gan: Evans and Wilkins, Caerfyrddin a Revelation Clothing, Arberth.

– NODWCH – Edrychir yn fwy manwl ar bolisi gwisg ysgol, yn enwedig ynglyn â esgidiau yn ystod y flwyddyn. Fe fyddwch yn derbyn eglurhad mewn digon o amser cyn prynu'r wisg ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Cit Chwaraeon

Bechgyn	Merched
Crys rygbi dwy-ffordd Glas Tywyll/Glas Golau llewys hir Akoa	
Crys ysgafn hyfforddi Glas Tywyll/Glas Golau llewys byr Akoa	Crys 'Polo' Glas Tywyll/Glas Golau
neu Fest Athletau Glas Tywyll/Glas Golau Akoa	Skort/Trowsus Byr Glas Tywyll/Glas Golau Akoa leggings glas tywyll yr ysgol
Trowsus Byr Glas Tywyll/Glas Golau Akoa	Sanau Chwaraeon Glas Tywyll/Glas Golau Akoa
Sanau Chwaraeon Glas Tywyll/Glas Golau Akoa	Esgidiau Ymarfer Chwaraeon (Trainers) cadarn
Esgidiau Rygbi/Pêl droed (hanfodol)	
Esgidiau Ymarfer Chwaraeon (Trainers) cadarn	

Trefniadau Bwyta

Chartwells (rhan o Grwp Compass UK) sy'n rhedeg ffreutur yr ysgol ac fe gafodd ei adnewyddu ym mis Awst 2010 i ddarparu cyfleusterau bwyta modern ar gyfer y disgyblion. Y mae'n cynnwys bar salad ac ardal café, yn ogystal â ffreutur sy'n cynnig ystod o brydau twym iach. Mae'r ffreutur nawr yn rhedeg system taliad ar-lein a bydd disgyblion yn derbyn manylion ar-lein er mwyn i rieni a gofalwyr fedru osod rhagor o arian ar y cyfrif fel y bo angen.

Mae'r ffreutur hefyd ar agor yn ystod yr egwyl cyntaf pan fydd tost ac eitemau eraill ar werth.

Yr Hawl i gael Cinio Ysgol am Ddim

Os oes gan eich plentyn yr hawl i gael cinio ysgol am ddim, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr Ysgol yn derbyn y dogfennau perthnasol fel bo cinio am ddim

yn gallu cael ei roi iddo. I wneud cais am Ginio Ysgol am Ddim cysylltwch ag:

Swyddfa Cinio Ysgol am Ddim, Cyngor Sir Gâr, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Fynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB.

Ffôn 01267 246526/01267 246521

Ebost: freeschoolmeals@carmarthenshire.gov.uk

DS. Cynigir cinio ysgol am ddim i blant pan fo'u rhieni/gwarcheidwad yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol:- a) Cymhorthdal Incwm, b) Lwfans Ceisio Gwaith - Seiliedig ar Incwm, c) Cymorth dan ran V1 o Ddeddf Mewnfudwyr a Cheiswyr Lloches 1999, d) Elfen Gwarant Credyd Pensiwn y Wladwriaeth, e) Credydau Treth i Blant **YN UNIG**, gydag incwm teuluol blynyddol (a aseswyd gan Gyllid Y Wlad) yn llai na £16,190 (o'r 6^{ed} Ebrill 2013) oni bai bod y Credyd Treth Gwaith yn rhan o estyniad pedair wythnos, f) Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm g) Credyd Cynhwysol.



Gwybodaeth Gymharol yr Ysgol: Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2017: CA4

Dyffryn Taf
Crynodeb o Gyraeddiadau Ysgol (1)

SSSP 2018
Rhif ALI/Ysgol 669 / 4512

Disgyblion yn blwyddyn 11

Nifer y disgyblion yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2018 : 130

Canran y disgyblion yn blwyddyn 11 a:

	gofrestrodd am o leiaf un cymhwyster	enillodd drothwy Lefel 1	enillodd drothwy Lefel 2	enillodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU mewn Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg	enillodd 5 gradd TGAU A*-A neu cyfatebol	Sgôr bwyntiau gyfartalog 9 fesul disgybl wedi'i chapio (2)	Sgôr bwyntiau gyfartalog 8 fesul disgybl wedi'i chapio (2)
Ysgol 2017/18	100	100	76	65	20	380	347
Ardal ALI 2017/18
Cymru 2017/18
Ysgol 16/17/18	100	99	81	65	20	..	350
Ysgol 15/16/17	100	98	85	63	20	..	352

Nifer y bechgyn yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2018 : 69

Canran y bechgyn yn blwyddyn 11 a:

	gofrestrodd am o leiaf un cymhwyster	enillodd drothwy Lefel 1	enillodd drothwy Lefel 2	enillodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU mewn Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg	enillodd 5 gradd TGAU A*-A neu cyfatebol	Sgôr bwyntiau gyfartalog 9 fesul disgybl wedi'i chapio (2)	Sgôr bwyntiau gyfartalog 8 fesul disgybl wedi'i chapio (2)
Ysgol 2017/18	100	100	65	59	16	365	333
Ardal ALI 2017/18
Cymru 2017/18
Ysgol 16/17/18	100	99	75	60	17	..	340
Ysgol 15/16/17	100	98	80	57	14	..	342

Nifer y merched yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2018 : 61

Canran y merched yn blwyddyn 11 a:

	gofrestrodd am o leiaf un cymhwyster	enillodd drothwy Lefel 1	enillodd drothwy Lefel 2	enillodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU mewn Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg	enillodd 5 gradd TGAU A*-A neu cyfatebol	Sgôr bwyntiau gyfartalog 9 fesul disgybl wedi'i chapio (2)	Sgôr bwyntiau gyfartalog 8 fesul disgybl wedi'i chapio (2)
Ysgol 2017/18	100	100	89	70	25	397	363
Ardal ALI 2017/18
Cymru 2017/18
Ysgol 16/17/18	100	99	89	69	23	..	361
Ysgol 15/16/17	100	98	90	68	26	..	362

(1) I gael manylion ar gymhwysterau sydd wedi'u cymeradwyo, sgôr pwyntiau a chyfraniad at y throthwy, gweler gwefan Cymwysterau Cymru (QiW) <http://www.qiw.wales/>

(2) Cyfrifir y sgôr pwyntiau 9 / 8 wedi'i chapio gan ddefnyddio y 9 / 8 canlyniad gorau ond rhaid cynnwys rhai pynciau penodol. Gweler y nodiadau am rhagor o fanylion.

.. Data ddim ar gael.

Disgyblion yn blwyddyn 11

Nifer y disgyblion yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2018 : 130

Canran y disgyblion yn blwyddyn 11 a:

ennillodd A*-C mewn :

	Saesneg/ Cymraeg	Saesneg	Cymraeg (6)	Gwyddoniaeth	Mathemateg	Mathemateg - Rhifedd	Gorau o Fathemateg	Dangosydd Pynciau Craidd (3)
Ysgol 2017/18	78	78	52	84	68	65	71	65
Ardal ALI 2017/18
Cymru 2017/18
Ysgol 16/17/18	77	77	39	90	64
Ysgol 15/16/17	77	77	26	89	60

Nifer y bechgyn yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2018 : 69

Canran y bechgyn yn blwyddyn 11 a:

ennillodd A*-C mewn :

	Saesneg/ Cymraeg	Saesneg	Cymraeg (6)	Gwyddoniaeth	Mathemateg	Mathemateg - Rhifedd	Gorau o Fathemateg	Dangosydd Pynciau Craidd (3)
Ysgol 2017/18	70	70	39	80	64	62	67	61
Ardal ALI 2017/18
Cymru 2017/18
Ysgol 16/17/18	70	70	25	88	61
Ysgol 15/16/17	69	69	11	88	57

Nifer y merched yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2018 : 61

Canran y merched yn blwyddyn 11 a:

ennillodd A*-C mewn :

	Saesneg/ Cymraeg	Saesneg	Cymraeg (6)	Gwyddoniaeth	Mathemateg	Mathemateg - Rhifedd	Gorau o Fathemateg	Dangosydd Pynciau Craidd (3)
Ysgol 2017/18	87	87	73	89	72	67	75	69
Ardal ALI 2017/18
Cymru 2017/18
Ysgol 16/17/18	86	86	65	92	67
Ysgol 15/16/17	87	86	56	89	64

- (1) I gael manylion ar gymhwysterau sydd wedi'u cymeradwyo, sgôr pwyntiau a chyfraniad at y throthwy, gweler y Gronfa Ddata Cymwystera Cymeradwy Cymru (DAQW) yn <http://www.daqw.org.uk/>
- (2) Mae manylion ynglŷn â pha feysydd llafur sydd ym mhob pwnc ar gael yn y nodiadau cyfarwyddyd.
- (3) Cyfrifir y sgôr pwyntiau cyfartalog eang wedi'i gapio gan ddefnyddio'r 8 calnlyniad gorau.
- (4) Cymhwyster Lefel Mynediad.
- (5) Defnyddir ar gyfer holl dablau meincodi prydau am ddim. Dangosir y dangosydd yma dim ond am ysgolion uwchradd prif ffrwd.
- (6) Nodwch mai enwadur y dangosydd yma yw'r disgyblion yn blwyddyn 11 a geisiodd arholiad Cymraeg laith Gyntaf, yn hytrach na chyfanswm yr holl ddisgyblion yn blwyddyn 11.
- .. Data ddim ar gael.

Disgyblion yn blwyddyn 11

	Percentage of pupils in Year 11 who:		Percentage of boys in Year 11 who:		Percentage of girls in Year 11 who:	
	gyflawnodd y Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol neu Sylfaenol	gyflawnodd y Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol	gyflawnodd y Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol neu Sylfaenol	gyflawnodd y Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol	gyflawnodd y Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol neu Sylfaenol	gyflawnodd y Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol
Ysgol 2017/18	99	89	99	83	100	97
Ardal ALI 2017/18
Cymru 2017/18
Ysgol 16/17/18
Ysgol 15/16/17

Cyflawniad y Bagloriaeth Cymru gan ddisgyblion ym mlwyddyn 11

	Percentage of pupils in Year 11 who:		Percentage of boys in Year 11 who:		Percentage of girls in Year 11 who:	
	gyflawnodd y Bagloriaeth Cenedlaethol neu Sylfaenol Cymru	gyflawnodd y Bagloriaeth Cenedlaethol Cymru	gyflawnodd y Bagloriaeth Cenedlaethol neu Sylfaenol Cymru	gyflawnodd y Bagloriaeth Cenedlaethol Cymru	gyflawnodd y Bagloriaeth Cenedlaethol neu Sylfaenol Cymru	gyflawnodd y Bagloriaeth Cenedlaethol Cymru
Ysgol 2017/18	99	62	99	57	100	69
Ardal ALI 2017/18
Cymru 2017/18
Ysgol 16/17/18
Ysgol 15/16/17

(1) For details on approved qualifications, point scores and contribution to thresholds, please see Qualifications Wales website (QiW) at <https://www.qiw.wales/>

.. Data not available

Cyrchfannau Disgyblion 2017 – 2018

	Oed		
	16	17	18
Parhau Llwybr Dysgu yn Dyffryn Taf	0	54	72
Addysg Uwch/Addysg Bellach	45	13	55
Cyflogaeth/Prentisiaeth	9	3	6
Eraill	1	0	0
Cyfanswm	55	70	133



Presenoldeb 2017 – 2018

Blwyddyn Ysgol	% Cyfanswm Absenoldeb	% Heb Awdurdod	% Presenoldeb
2013-14	6.1	0.5	93.4
2014-15	4.2	0.5	95.3
2015-16	4.3	0.4	95.3
2016-17	4.6	0.7	94.7
2017-18	8.0	0.3	91.7

Oed	% Yn Bresennol			Gydag Awdurdod			Heb Awdurdod		
	G	B	C	G	B	C	G	B	C
15	76.6	78.5	78.6	21.3	21.4	21.3	0.1	0.1	0.1
14	94.8	93.5	94.1	4.8	6.2	5.5	0.4	0.3	0.4
13	93.3	93.0	93.2	4.9	5.3	5.1	1.8	1.7	1.7
12	96.3	94.5	95.4	5.3	5.1	5.2	0.4	0.4	0.4
11	95.0	95.3	95.2	4.7	4.4	4.6	0.3	0.3	0.3
Pob oed	93.1	94.5	91.7	8.2	8.1	8.4	0.6	0.6	0.6

